# Mewnforio ffrwythau a llysiau

Canllawiau ar beth yw cynnyrch risg uwch, labelu, deunydd pecynnu, diogelwch cemegol a rheolaethau ar iechyd planhigion.

Mae'n rhaid i ffrwythau a llysiau (rhai ffres, rhai wedi'u sychu, rhai mewn tun, rhai wedi'u prosesu neu rai wedi'u rhewi) a gaiff eu mewnforio o drydydd gwledydd fodloni'r un safonau hylendid, a bod yn destun i'r un gweithdrefnau diogelwch, â bwyd a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr. Fel arfer, nid oes angen tystysgrif iechyd arnoch chi i fewnforio ffrwythau a llysiau.

Os ydych chi'n mewnforio ffrwythau a llysiau, cofiwch ddarllen Mewnforio cynhyrchion planhigion a chynhyrchion llysieuol hefyd i gael canllawiau ar fewnforio'r mathau hyn o gynhyrchion.

## Cynhyrchion ‘risg uwch’

Dim ond drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol sydd wedi’u hawdurdodi fel Mannau Rheoli ar y Ffin y gellir mewnforio rhai bwydydd a bwydydd anifeiliaid penodol nad ydynt yn dod o anifeiliaid a gaiff eu hystyried i beri ‘risg uwch’ i Brydain Fawr. Bydd y rhain yn destun rheolaethau swyddogol. Mae cynnyrch ‘risg uwch’ yn gynnyrch bwyd neu fwyd anifeiliaid y mae’n hysbys ei fod yn peryglu iechyd y cyhoedd, neu fod hynny’n dod i’r amlwg.

### Labelu

Mae gwybodaeth gyffredinol am labelu bwyd ar gael ar wefan GOV.UK. I gael cyngor ar labelu cynhyrchion penodol, cysylltwch ag Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol.

### Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir ar gyfer pecynnu bwyd, yn cael eu rheoli gan gyfraith y Deyrnas Unedig (DU) a ddargedwir (retained UK law). Mae'r ddeddfwriaeth yn arbennig o drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio gyda bwyd.

I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

### Hylendid Bwyd

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol am hylendid bwyd, gan gynnwys bwyd wedi'i rewi a hadau y bwriedir eu hegino, cysylltwch â'r Tîm Polisi Hylendid Bwyd dros e-bost.

## Ychwanegion

Mae rhai cynhyrchion yn cynnwys lliwiau, cyflasynnau (flavourings) neu felysyddion bwyd. Er ei bod yn bosib bod yr awdurdod bwyd wedi cymeradwyo'r rhain yn y wlad tarddiad, efallai na fydd rhai ohonynt wedi'u cymeradwyo ym Mhrydain Fawr.

I gael gwybodaeth am gyflasynnau, melysyddion, lliwiau a chyffeithyddion bwyd, cysylltwch â Thîm Ychwanegion Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) drwy ein ffurflen ar-lein.

# Diogelwch cemegol

## Halogion

Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer deddfu a gorfodi cyfraith y DU a ddargedwir sy'n gosod terfynau rheoleiddio ar gyfer halogion mewn bwyd, fel nitrad, mycotocsinau, metelau, 3-MCPD, deuocsinau a hydrocarbonau aromatig polysyclig neu PAHs.

Dyma ragor o wybodaeth am halogion cemegol.

## Plaladdwyr

I gael gwybodaeth am lefelau diogelwch plaladdwyr, cysylltwch â Chyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

## Afflatocsinau

Mae mewnforio rhai bwydydd o drydydd gwledydd penodol, fel ffigys wedi'u sychu a chynhyrchion ffigys wedi'u sychu o Dwrci, a ffrwythau wedi'u sychu, yn destun amodau arbennig oherwydd y risg o halogiad gan afflatocsinau. Mae hyn yn golygu mai dim ond trwy Fannau Rheoli ar y Ffin awdurdodedig (BCP) y gellir mewnforio llwythi i Brydain Fawr, lle cynhelir rheolaethau swyddogol.

# Iechyd planhigion

Mae llawer o gynhyrchion planhigion sydd naill ai wedi'u gwahardd rhag dod i mewn i'r DU o wledydd y tu allan i'r Brydain Fawr, neu mae angen tystysgrif ffytoiechydol (phytosanitary) arnynt i wneud hynny.

Mae rheolaethau swyddogol a chyfyngiadau ar fewnforio, symud a chadw planhigion, plâu planhigion a deunyddiau eraill, fel pridd, yn hanfodol er mwyn atal lledaeniad organebau niweidiol.

Mae gwybodaeth am unrhyw ofynion iechyd planhigion, neu p’un a oes angen tystysgrif ffytoiechydol ar y ffrwythau neu'r llysiau yr ydych am eu mewnforio, ar gael gan Dîm Iechyd Planhigion yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar ei gwefan.

Fel arall, gallwch chi ddarllen ei thudalen we ar Reolaethau Iechyd Planhigion.

## Hysbysebu honiadau maeth ac iechyd

I gael gwybodaeth am unrhyw ofynion safonau marchnata ar gyfer ffrwythau a llysiau ffres, cysylltwch ag Arolygiaeth Marchnata Garddwriaethol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) trwy eu gwefan.

## Canllawiau'r diwydiant bwyd

I gael gwybodaeth benodol am ofynion hylendid ar gyfer berwr d?r (watercress), darllenwch ein Canllaw i’r diwydiant ar hylendid da – Berwr d?r 2017 ar wefan Watercress, Good for Everybody.

## Honiadau meddygol

Mae honiadau meddyginiaethol weithiau'n cael eu gwneud am rai ffrwythau a llysiau er enghraifft, y ffa gwyrthiol 'Lupinus Albus'. Mae cynhyrchion lle gwneir honiadau ar gyfer trin neu atal clefyd, neu sy'n cael ei weinyddu gyda'r bwriad o adfer, cywiro neu addasu swyddogaethau ffisiolegol trwy weithredu'n fferyllol, yn imiwnolegol neu'n fetabolig, yn dod o fewn y diffiniad o feddyginiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am honiadau meddygol, cysylltwch â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

### Cynhyrchion organig

Os ydych chi'n mewnforio cynhyrchion organig (cynhyrchion amaethyddol byw neu heb eu prosesu, cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid, deunydd ysgogi llystyfiant a hadau i'w tyfu), o drydydd gwledydd, cysylltwch â'r Tîm Mewnforion Organig trwy wefan DEFRA.

## Mewnforion o wledydd penodol

### Gwymon Hijiki

Mae'r ASB yn cynghori pobl i beidio â bwyta 'Hijiki', math o wymon, yn dilyn arolwg a oedd yn dangos ei fod yn cynnwys lefelau uchel o arsenig sydd â nodweddion carsinogenig hysbys.

I gael rhagor o wybodaeth am wymon Hijiki, cysylltwch â'n Tîm Halogion Cemegol drwy ein ffurflen ar-lein.

### Letys ac ysbigoglys

Mae'r ddeddfwriaeth halogion uchod hefyd yn berthnasol i lefelau diogelwch nitrad mewn letys ac ysbigoglys (spinach) sy'n cael eu fewnforio i Brydain Fawr.

I gael gwybodaeth am y lefelau a'r gweithdrefnau profi hyn, cysylltwch â'n Tîm Halogion Cemegol drwy ein ffurflen ar-lein.